OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 289 (Cy.38)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn sefydlu, o 1 Ebrill 2010, chwe Chyngor Iechyd Cymuned newydd yng Nghymru, fel y darperir ar eu cyfer yn adran 182(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42).

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn nodi'r ardaloedd y sefydlir y Cynghorau Iechyd Cymuned ar eu cyfer.

Mae erthygl 5 yn gosod y swyddogaethau sydd i'w cyflawni gan y Cynghorau Iechyd Cymuned a sefydlir o dan erthygl 3.

Mae erthygl 6 yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau a hawliau oedd yn arferadwy gan y Cynghorau sy'n cael eu diddymu gan erthygl 9 o'r Gorchymyn hwn ac ar gyfer trosglwyddo'r rhwymedigaethau oedd yn orfodadwy yn erbyn y cyfryw Gynghorau i'r Cynghorau a sefydlir gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 7 yn sicrhau fod adroddiadau a chyfrifon y Cynghorau a ddiddymir gan erthygl 9 o'r Gorchymyn hwn yn cael eu darparu yn unol â rheoliadau 25 a 41 o Reoliadau'r Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010.

Mae erthygl 8 yn darparu ar gyfer parhâd wrth arfer swyddogaethau.

Mae erthygl 9 yn diddymu dau ar bymtheg o'r Cynghorau Iechyd Cymuned presennol yng Nghymru ar 1 Ebrill 2010.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 289 (W.38)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Community Health Councils (Establishment, Transfer of Functions and Abolition) (Wales) Order 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Article 3 of this Order establishes from 1 April 2010 six new Community Health Councils in Wales, as provided for in section 182(2) of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42).

Article 4 of this Order sets out the areas for which the Community Health Councils are established.

Article 5 sets out the functions to be performed by the Community Health Councils established under article 3.

Article 6 provides for the transfer of functions and rights which were exercisable by the Councils which are abolished by article 9 of this Order and the liabilities which were enforceable against such Councils to transfer to the Councils established by article 3 of this Order.

Article 7 ensures that reports and accounts of the Councils abolished by article 9 of this Order are furnished in accordance with regulations 25 and 41 of the Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2010.

Article 8 provides for continuity in the exercise of functions.

Article 9 abolishes seventeen of the existing Community Health Councils in Wales on 1 April 2010.

Er mwyn eglurder, gan fod pob Cyngor Iechyd Cymuned arall yng Nghymru yn cael ei ddiddymu a Chynghorau Iechyd Cymuned newydd yn cael eu creu ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, mae erthygl 10 yn darparu'n benodol ar gyfer parhâd bodolaeth Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn.

Mae'n cadarnhau fod Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn gyda'i gilydd yn cwmpasu'r ardal y sefydlir Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys drosti. Mae hyn yn dangos fod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i sicrhau fod yr ardaloedd y sefydlir Byrddau Iechyd Cymuned ar eu cyfer ar unrhyw adeg gyda'i gilydd yn cynnwys Cymru gyfan (adran 182(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006). Nid yw'r union ardaloedd y sefydlwyd Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn ar eu cyfer, a'r union ardaloedd y maent yn eu tro yn arfer eu swyddogaethau drostynt, wedi newid, ac fe'u gosodir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 11 yn disgrifio swyddogaethau'r Cynghorau sy'n parhau.

Mewn perthynas ag aelodaeth, cyfansoddiad, a gweithdrefnau'r Cynghorau Iechyd Cymuned, gweler Rheoliadau'r Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/288, (Cy.37)).

For the sake of clarity, as all other Community Health Councils in Wales are being abolished and new Community Health Councils are being set up for areas in Wales, article 10 expressly provides for the continuation in existence of Brecknock and Radnor Community Health Council and Montgomeryshire Community Health Council.

It confirms that Brecknock and Radnor Community Health Council and Montgomeryshire Community Health Council together cover the area for which Powys Teaching Local Health Board is established. This demonstrates that Welsh Ministers have complied with their duty to ensure that the areas for which Community Health Councils are at any time established together comprise the whole of Wales (section 182(3) of the National Health Service (Wales) Act 2006). The actual areas that Brecknock and Radnor Community Health Council and Montgomeryshire Community Health Council are, respectively, actually established for and in respect of which they exercise their functions, have not changed and are set out at Schedule 3 to this Order.

Article 11 describes the functions of the continued Councils.

In relation to the membership, constitution, and procedures of Community Health Councils, see the Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/288, (W.37)).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 289 (Cy.38)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Chwefror 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *10 Chwefror 2010* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 182(2), (3) a 203(9) a (10)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) ac Atodlen 10 iddi, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1**.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2010.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn–

ystyr "ardal Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board area*") yw'r ardal o Gymru y sefydlir Bwrdd Iechyd Lleol ar ei chyfer o dan erthygl 4 o Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009(**2**);

ystyr "ardal Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys" ("*Powys Teaching Local Health Board area*") yw'r ardal y sefydlir Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar ei chyfer yn yr Atodlen i Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003, fel y'i diwygiwyd(**3**);

(**1**) 2006 p.42.

(**2**) O.S. 2009/778 (Cy.66).

(**3**) O.S. 2003/148 (Cy.18) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/778 (Cy.66).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 289 (W.38)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Community Health Councils (Establishment, Transfer of Functions and Abolition) (Wales) Order 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 February 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *10 February 2010* |
| *Coming into force* | *1 April 2010* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 182(2), (3) and 203(9) and (10)(a) of, and Schedule 10 to, the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**) make the following Order:

**Title and commencement**

**1**.–(1) The title of this Order is The Community Health Councils (Establishment, Transfer of Functions and Abolition) (Wales) Order 2010.

(2) This Order comes into force on 1 April 2010.

**Interpretation**

**2**. In this Order–

"abolition date" ("*y dyddiad diddymu*") means 1 April 2010;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the National Health Service (Wales) Act 2006;

"Community Health Council area" ("*ardal Cyngor Iechyd Cymuned*") means the area of Wales for which a Community Health Council under article 3 of this Order is established;

"the continued Councils" ("*y Cynghorau sy'n*

(**1**) 2006 c.42.

ystyr "ardal Cyngor Iechyd Cymuned" ("*Community Health Council area*") yw'r ardal o Gymru y sefydlir Cyngor Iechyd Cymuned ar ei chyfer o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyn Gyngor" ("*former Council*") yw Cyngor a ddiddymir o dan erthygl 9 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y Cynghorau sy'n parhau" ("*the continued Councils*") yw Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn;

ystyr "y Cynghorau newydd" ("*new Councils*") yw'r Cynghorau a sefydlir o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y dyddiad diddymu" ("*abolition date*") yw 1 Ebrill 2010;

ystyr "y dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 1 Ebrill 2010;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Ebrill 2010;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006; ac

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau'r Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010(**1**).

### Sefydlu Cynghorau Iechyd Cymuned

**3**. Sefydlir, yn effeithiol o'r dyddiad sefydlu, y chwe Chyngor Iechyd Cymuned a restrir yng ngholofn 1 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac sy'n dwyn yr enwau a roddir iddynt yn yr Atodlen honno.

### Ardaloedd Cynghorau Iechyd Cymuned

**4**.–(1) Mae pob ardal Cyngor Iechyd Cymuned yn cyfateb i ardal y Bwrdd Iechyd Lleol a neilltuir ar ei chyfer yng ngholofn 2 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Os yw ardal y Bwrdd Iechyd Lleol a neilltuir ar gyfer Cyngor Iechyd Cymuned o dan baragraff (1) yn cael ei hamrywio, mae ardal y Cyngor Iechyd Cymuned i'w hamrywio'n unol â hynny.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i greu ardal Bwrdd Iechyd Lleol newydd, i ddiddymu ardal Bwrdd Iechyd Lleol sy'n bodoli neu i gyfuno dwy ardal Bwrdd Iechyd Lleol neu fwy.

(**1**) O.S. 2010/288 (Cy.37).

*parhau*") means Brecknock and Radnor Community Health Council and Montgomeryshire Community Health Council;

"establishment date" ("*y dyddiad sefydlu*") means 1 April 2010;

"former Council" ("*cyn Gyngor*") means a Council which is abolished under article 9 of this Order;

"Local Health Board area" ("*ardal Bwrdd Iechyd Lleol*") means the area of Wales for which a Local Health Board under article 4 of the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009(**1**) is established;

"new Councils" ("*y Cynghorau newydd*") means the Councils established under article 3 of this Order;

"Powys Teaching Local Health Board area" ("*ardal Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys*") means the area for which Powys Teaching Local Health Board is established in the Schedule to the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003, as amended(**2**);

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2010(**3**); and

"transfer date" ("*y dyddiad trosglwyddo*") means 1 April 2010.

### Establishment of Community Health Councils

**3**. There are established, with effect from the establishment date, the six Community Health Councils listed in column 1 of Schedule 1 to this Order which have the names assigned to them in that Schedule.

### Community Health Council areas

**4**.–(1) Each Community Health Council area consists of the Local Health Board area assigned to it in column 2 of Schedule 1 to this Order.

(2) If the Local Health Board area assigned to a Community Health Council under paragraph (1) is varied, the Community Health Council area is to be varied accordingly.

(3) Paragraph (2) does not apply to the creation of a new Local Health Board area, abolition of an existing Local Health Board area or a merger of two or more Local Health Board areas.

(**1**) S.I 2009/778 (W. 66 )

(**2**) S.I. 2003/148 (W.18) as amended by S.I. 2009/778 (W.66).

(**3**) S.I. 2010/288 (W.37).

**Swyddogaethau'r Cynghorau newydd**

**5**. Dyma swyddogaethau'r Cynghorau newydd–

(i) yr hyn a osodir ym mharagraff 1(a) o Atodlen 10 i'r Ddeddf:

(ii) yr hyn a osodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 10 i'r Ddeddf; a

(iii) byddant yn cynnwys swyddogaethau'r cyn Gynghorau a drosglwyddir i'r Cynghorau newydd gan erthygl 6.

**Trosglwyddo swyddogaethau, hawliau a rhwymedigaethau i'r Cynghorau newydd**

**6**.–(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw swyddogaethau neu hawliau oedd yn arferadwy gan gyn Gynghorau neu i rwymedigaethau oedd yn orfodadwy yn eu herbyn ar y dyddiad trosglwyddo neu cyn hynny.

(2) Mae gan y Cynghorau newydd y buddiant o unrhyw swyddogaeth oedd yn arferadwy neu unrhyw hawl oedd yn orfodadwy gan y cyn Gynghorau hynny oedd yn gweithredu ar y dyddiad trosglwyddo neu cyn hynny o fewn ardal Cyngor Iechyd Cymuned neu ran o ardal felly sy'n perthyn i Gyngor newydd.

(3) Rhaid i Gyngor newydd gymryd cyfrifoldeb dros unrhyw rwymedigaeth oedd yn orfodadwy yn erbyn y cyn Gynghorau hynny oedd yn gweithredu ar y dyddiad trosglwyddo neu cyn hynny o fewn ardal Cyngor Iechyd Cymuned neu ran o ardal felly sy'n perthyn i Gyngor newydd.

**Darparu Adroddiadau a Chyfrifon cyn Gynghorau**

**7**.–(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i ddarparu adroddiadau a chyfrifon ar ran cyn Gynghorau am y cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010.

(2) Rhaid i Gyngor newydd wneud yr hyn sy'n angenrheidiol i sicrhau fod adroddiadau a chyfrifon am y cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010 y cyn Gynghorau hynny oedd yn gweithredu ar 31 Mawrth 2010 neu cyn hynny o fewn ardal Cyngor Iechyd Cymuned neu ran o ardal felly sy'n perthyn i'r Cyngor newydd, yn cael eu darparu yn unol â rheoliadau 25 a 41 o'r Rheoliadau.

**Darparu ar gyfer parhâd wrth arfer swyddogaethau**

**8**. Bydd unrhyw beth a wnaed gan y cyn Gynghorau neu mewn perthynas â hwynt wrth arfer swyddogaeth neu mewn cysylltiad â'r swyddogaeth honno sydd yn rhinwedd erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn yn dod yn swyddogaeth i Gyngor newydd yn cael effaith, i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol i barhau ei effaith ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny, megis petai wedi ei wneud gan y Cyngor newydd neu mewn perthynas ag ef.

**Functions of the new Councils**

**5**. The functions of the new Councils are–

(i) as set out in paragraph 1(a) of Schedule 10 to the Act;

(ii) as set out from time to time by the Welsh Ministers in regulations made pursuant to paragraph 2 of Schedule 10 to the Act; and

(iii) will include the functions of the former Councils transferred to the new Councils by article 6.

**Transfer of functions, rights and liabilities to the new Councils**

**6**.–(1) This article applies to any functions or rights which were exercisable by or liabilities which were enforceable against former Councils on or before the transfer date.

(2) The new Councils have the benefit of any function exercisable by or any right enforceable by those former Councils which operated on or before the transfer date within the Community Health Council area or part thereof of a new Council.

(3) A new Council must take responsibility for any liability enforceable against those former Councils which operated on or before the transfer date within the Community Health Council area or part thereof of a new Council.

**Furnishing of Reports and Accounts of former Councils**

**7**.–(1) This article applies to the furnishing of reports and accounts on behalf of former Councils for the period 1 April 2009 to 31 March 2010.

(2) A new Council must take such action as may be necessary to ensure that the reports and accounts for the period 1 April 2009 to 31 March 2010 of those former Councils which operated on or before the 31 March 2010 within the Community Health Council area or part thereof of the new Council, are furnished in accordance with regulations 25 and 41 of the Regulations.

**Provision for continuity in the exercise of functions**

**8**. Anything done by or in relation to the former Councils in the exercise of or in connection with a function which by virtue of article 6 of this Order becomes a function of a new Council will so far as it is required for continuing its effect on and after the transfer date have effect as if done by or in relation to the new Council.

**Diddymiadau**

**9**. Mae'r ddau ar bymtheg o Gynghorau Iechyd Cymuned a restrir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn a barhaodd mewn bodolaeth neu a sefydlwyd o dan adran 182 o'r Ddeddf yn cael eu diddymu gydag effaith o'r dyddiad diddymu.

**Abolitions**

**9**. The seventeen Community Health Councils listed in Schedule 2 to this Order which continued in existence or were established under section 182 of the Act are abolished with effect from the abolition date.

**Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn i barhau mewn bodolaeth**

**10**.–(1) Mae Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn yn parhau mewn bodolaeth.

(2) Ardal gyfunol y Cynghorau hyn sy'n parhau yw ardal Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys.

(3) Os bydd ardal Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn cael ei hamrywio mae ardal gyfunol y ddau gyngor hyn i gael ei hamrywio'n unol â hynny.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), yn yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3), caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, amrywio'r ardal y sefydlir y naill Gyngor neu'r llall, neu'r ddau Gyngor, sy'n parhau drosti.

(5) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i greu ardal Bwrdd Iechyd Lleol newydd, i ddiddymu Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys neu i gyfuno ardal Bwrdd Iechyd Lleol Powys ag ardal Bwrdd Iechyd Lleol arall, neu â fwy nag un ohonynt.

(6) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a gynhwysir o fewn yr erthygl hon, mae Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn cadarnhau'r ardaloedd y sefydlir y Cynghorau sy'n parhau drostynt ac y maent yn parhau i arfer eu swyddogaethau drostynt.

**Continuation in existence of Brecknock and Radnor Community Health Council and Montgomeryshire Community Health Council**

**10**.–(1) Brecknock and Radnor Community Health Council and Montgomeryshire Community Health Council continue in existence.

(2) The combined area of these continued Councils is the Powys Teaching Local Health Board area.

(3) If the Powys Teaching Local Health Board area is varied the combined area of these two councils is to be varied accordingly.

(4) Subject to paragraph (5), in the circumstance referred to in paragraph (3), the Welsh Ministers may, by order, vary the area for which either or both the continued Councils are established.

(5) Paragraph (3) does not apply to the creation of a new Local Health Board area, the abolition of Powys Teaching Local Health Board area or a merger of Powys Local Health Board area and one or more Local Health Board areas.

(6) Subject to the provisions contained within this article, Schedule 3 to this Order confirms the areas for which the continued Councils are established and in respect of which they continue to exercise their functions.

**Swyddogaethau'r Cynghorau sy'n parhau**

**11**. Dyma swyddogaethau'r Cynghorau sy'n parhau–

(i) yr hyn a osodir ym mharagraff 1(a) o Atodlen 10 i'r Ddeddf: a

(ii) yr hyn a osodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 10 i'r Ddeddf.

**Functions of the continued Councils**

**11**. The functions of the continued Councils are–

(i) as set out in paragraph 1(a) of Schedule 10 to the Act; and

(ii) as set out from time to time by the Welsh Ministers in regulations made pursuant to paragraph 2 of Schedule 10 to the Act.

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

9 Chwefror 2010

9 February 2010

## ATODLEN 1

Erthyglau 3 a 4

### Enwau Cynghorau Iechyd Cymuned ac ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol y sefydlir hwy ar eu cyfer

| *Colofn 1* | | *Colofn 2* |
|---|---|---|
| *Enwau Cynghorau Iechyd Cymuned a sefydlir o dan erthygl 3* | | *Ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol y sefydlir y Cyngor Iechyd Cymuned ar eu cyfer* |
| 1 | Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan | Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan |
| 2 | Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| 3 | Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| 4 | Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| 5 | Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf |
| 6 | Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda | Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda |

## SCHEDULE 1

Articles 3 and 4

### Community Health Council Names and Local Health Board Areas for which they are established

| *Column 1* | | *Column 2* |
|---|---|---|
| *Names of Community Health Councils established under article 3* | | *Local Health Board areas for which the Community Health Council is established* |
| 1 | Aneurin Bevan Community Health Council | Aneurin Bevan Local Health Board |
| 2 | Abertawe Bro Morgannwg Community Health Council | Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board |
| 3 | Betsi Cadwaladr Community Health Council | Betsi Cadwaladr University Local Health Board |
| 4 | Cardiff and Vale of Glamorgan Community Health Council | Cardiff and Vale University Local Health Board |
| 5 | Cwm Taf Community Health Council | Cwm Taf Local Health Board |
| 6 | Hywel Dda Community Health Council | Hywel Dda Local Health Board |

## ATODLEN 2

Erthygl 9

### 17 o Gynghorau Iechyd Cymuned a ddiddymir yn effeithiol o 1 Ebrill 2010

| *Cynghorau Iechyd Cymuned a oedd yn parhau mewn bodolaeth, neu a gafodd eu sefydlu, o dan adran 182 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006* | |
|---|---|
| 1 | Cyngor Iechyd Cymuned Dwyrain Conwy |
| 2 | Cyngor Iechyd Cymuned Gorllewin Conwy |
| 3 | Cyngor Iechyd Cymuned Clwyd |
| 4 | Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd |
| 5 | Cyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd |
| 6 | Cyngor Iechyd Cymuned Ynys Môn |
| 7 | Cyngor Iechyd Cymuned Gwent |
| 8 | Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd |
| 9 | Cyngor Iechyd Cymuned Bro Morgannwg |
| 10 | Cyngor Iechyd Cymuned Merthyr a Chwm Cynon |
| 11 | Cyngor Iechyd Cymuned Pontypridd a Rhondda |
| 12 | Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe |
| 13 | Cyngor Iechyd Cymuned Castell-nedd a Phort Talbot |
| 14 | Cyngor Iechyd Cymuned Pen-y-bont ar Ogwr |
| 15 | Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin |
| 16 | Cyngor Iechyd Cymuned Sir Benfro |
| 17 | Cyngor Iechyd Cymuned Ceredigion |

## SCHEDULE 2

Article 9

### 17 Community Health Councils abolished with effect from 1 April 2010

| *Community Health Councils continued in existence or established under section 182 of the National Health Service (Wales) Act 2006* | |
|---|---|
| 1 | Conway East Community Health Council |
| 2 | Conway West Community Health Council |
| 3 | Clwyd Community Health Council |
| 4 | Gogledd Gwynedd Community Health Council |
| 5 | Meirionnydd Community Health Council |
| 6 | Ynys Môn Community Health Council |
| 7 | Gwent Community Health Council |
| 8 | Cardiff Community Health Council |
| 9 | Vale of Glamorgan Community Health Council |
| 10 | Merthyr and Cynon Valley Community Health Council |
| 11 | Pontypridd and Rhondda Community Health Council |
| 12 | Swansea Community Health Council |
| 13 | Neath Port Talbot Community Health Council |
| 14 | Bridgend Community Health Council |
| 15 | Carmarthenshire Community Health Council |
| 16 | Pembrokeshire Community Health Council |
| 17 | Ceredigion Community Health Council |

## ATODLEN 3

Erthygl 10

Ardaloedd o fewn prif ardal llywodraeth leol Powys (yr ardal y sefydlir Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar ei chyfer) y sefydlir y Cynghorau sy'n parhau ar eu cyfer ac y maent yn arfer eu swyddogaethau drostynt

| | *Enw'r Cyngor Iechyd Cymuned* | *Ardaloedd o fewn prif ardal llywodraeth leol Powys y sefydlir y Cyngor Iechyd Cymuned ar eu cyfer*(**1**) |
|---|---|---|
| 1 | Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed | Dosbarth Maesyfed a Brycheiniog |
| 2 | Cyngor Iechyd Cymuned Maldwyn | Dosbarth Sir Drefaldwyn gan gynnwys cymunedau Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin a Llangedwyn |

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(**1**) *Gweler* Rhan I o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70) fel y'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19) adran 1(2), Atodlen1, paragraff 1.

## SCHEDULE 3

Article 10

Areas within the principal local government area of Powys (the area for which Powys Teaching Local Health Board is established) for which the continued Councils are established and in respect of which they exercise their functions

| | *Name of Community Health Council* | *Areas within the principal local government area of Powys for which the Community Health Council is established(1)* |
|---|---|---|
| 1 | Brecknock and Radnor Community Health Council | District of Radnorshire and Brecknock |
| 2 | Montgomeryshire Community Health Council | District of Montgomeryshire including the communities of Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin and Llangedwyn. |

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) *See* Part I of Schedule 4 to the Local Government Act 1972 (c.70) as substituted by the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19) section 1(2), Schedule 1, paragraph 1.

£5.50

W633/03/10 ON